Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Y Bryn
# Heol Gelli
# Bryn
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 9TT

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Y Bryn

Mae Ysgol Gynradd Y Bryn ar gyrion Llanelli, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae 213 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae saith o ddosbarthiadau un oedran, un dosbarth oedrannau cymysg a dosbarth meithrin sy’n cynnwys cymysgedd o ddisgyblion amser llawn a rhan-amser.

Cyfartaledd treigl tair blynedd y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 19%, sydd fymryn yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae’r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 26% o ddisgyblion, sy’n uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac yn siarad Cymraeg gartref.

Bu diffyg parhad yn yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn ddiweddar. Penodwyd y pennaeth parhaol yn Ionawr 2017, ond roedd yn absennol oherwydd afiechyd adeg yr arolygiad. Ers canol Hydref 2018, mae dirprwy bennaeth o ysgol leol wedi goruchwylio’r ysgol am dridiau’r wythnos. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn barod i weithio'n galed. Maent yn awyddus i lwyddo. Cyflawnir safonau boddhaol mewn Saesneg a mathemateg gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol erbyn iddynt adael yr ysgol. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion yn methu gwneud cynnydd digon da o'u mannau cychwyn unigol, yn enwedig disgyblion mwy abl a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn gofalu'n dda am ddisgyblion ac yn hyrwyddo datblygiad personol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm a'r trefniadau ar gyfer cynorthwyo ac arwain disgyblion yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ddisgyblion yn ddigon da. Mae ansawdd yr addysgu'n amrywio gormod rhwng dosbarthiadau, ac mae llawer o athrawon yn tanamcangyfrif galluoedd disgyblion a graddfa lawn yr hyn y gallant ei gyflawni.

Ceir diffyg parhad yn arweinyddiaeth yr ysgol, ac nid oes ganddi strwythur arwain cadarn. Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol i waith yr ysgol nac yn dangos y gallu ar hyn o bryd i sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen. Mae rôl y corff llywodraethol o ran dwyn arweinyddiaeth yr ysgol i gyfrif am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ac ansawdd darpariaeth yr ysgol, yn wan, ac mae eu goruchwyliaeth o gyllid yr ysgol yn gyfyngedig.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |

## Argymhellion

A1 Sefydlu strwythur arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel

A2 Datblygu gallu'r corff llywodraethol i gynorthwyo'r ysgol yn strategol ac i gyflawni'i ofynion statudol

A3 Sicrhau bod asesiadau athrawon yn gywir ac yn deillio o werthusiad cadarn o safonau disgyblion

A4 Sefydlu system gadarn i gynorthwyo'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol

A5 Gwella presenoldeb yn yr ysgol

A6 Rhoi egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith yn llawn

A7 Gwella ansawdd arfer yn yr ystafell ddosbarth fel bod yr addysgu a'r dysgu yn cefnogi datblygu disgyblion yn ddysgwyr annibynnol ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni gystal ag y gallant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae tua hanner y disgyblion yn ymuno â'r ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth islaw hynny a ddisgwylir am eu hoedran. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau addas mewn Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion yn methu gwneud cynnydd digon da o'u mannau cychwyn unigol, yn enwedig y disgyblion mwy abl a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn foddhaol o ran datblygu a chymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol yn y cyfnod sylfaen. Maent yn gwrando'n bwrpasol, ar y cyfan. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod pa wrthrychau y gellir eu canfod yn y gofod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir a hyderus, ac maent yn awyddus i roi atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth am ffoneg i'w helpu i ddatrys geiriau anghyfarwydd. Gwnânt ragfynegiadau synhwyrol ynglŷn â beth allai ddigwydd nesaf mewn storïau, ac maent yn siarad yn hyderus am awduron enwog a llyfrau y maent wedi'u mwynhau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl o destunau sy'n briodol o heriol. Maent yn siarad yn huawdl, er enghraifft i adrodd storïau y maent wedi'u darllen. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos empathi ac yn defnyddio geirfa ddifyr ac iaith sensitif wrth drafod teimladau cymeriad. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth dda o destunau. Defnyddiant fedrau darllen lefel uwch wrth chwilio am wybodaeth am destunau, er enghraifft am y galon.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ffurfio arddull ysgrifennu redol. Maent yn sillafu ystod addas o eiriau'n gywir, ac yn defnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau gyda mwy a mwy o gywirdeb. Mae ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig, er enghraifft i ailadrodd stori Rama a Sita. Dangosant ymwybyddiaeth ddatblygol o gysyllteiriau amser a defnyddiant eirfa ddisgrifiadol addas. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn ystod addas o genres. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu'n ddarbwyllol i annog pobl i gefnogi anifeiliaid sydd wedi'u cam-drin, ac yn cyfansoddi barddoniaeth greadigol i ddisgrifio arogl penodol, fel fanila. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth wella cynnwys eu gwaith ysgrifenedig mewn gwersi neu dros gyfnod, ac nid ydynt yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu'n estynedig yn ddigon da yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif priodol. Er enghraifft, maent yn trefnu rhifau dau ddigid yn gywir yn ôl maint, ac yn datrys problemau haneru a dyblu rhifau yn gywir. Gallant amcangyfrif pwysau gwrthrychau yn hyderus ac maent yn datblygu dealltwriaeth briodol o fesurau safonol. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau cyfrifo addas gan lawer o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod o strategaethau'n effeithiol, er enghraifft i luosi degolion. Yn gynyddol, mae disgyblion yn defnyddio medrau rhif yn effeithiol mewn cyfuniad, er enghraifft i ddatrys problemau geiriau ynglŷn â chost anfon negeseuon testun, a

gwneud galwadau ar ffôn symudol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth briodol o briodweddau siâp a chysyniadau fel cymesuredd. Mae llawer o ddisgyblion yn dehongli data'n bwrpasol ac yn dechrau llunio casgliadau priodol o'u canfyddiadau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn ymchwilio mewn gwyddoniaeth p'un ai'r plentyn â'r droed hiraf sydd â'r llaw hiraf. Fodd bynnag, mae bron yr holl ddisgyblion yn methu cymhwyso'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu a chymhwyso medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae llawer o ddisgyblion meithrin a derbyn yn defnyddio dyfeisiau llechi'n annibynnol, er enghraifft i lwytho gemau neu reoli ffigurau ar sgrin. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod bwrpasol o fedrau TGCh yn briodol. Er enghraifft, maent yn ymgorffori testun a delweddau mewn cyflwyniadau am Antarctica ac yn mewnbynnu data ar daenlenni sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio TGCh yn ddigon rheolaidd i gefnogi'u dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol wrth ddatblygu'u medrau sylfaenol mewn Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ymadroddion syml a geirfa sylfaenol yn aml yn ystod y diwrnod ysgol, ond nid oes hyder ganddynt wrth ddarllen testunau syml. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa sylfaenol i ymateb i gwestiynau syml, ac mae disgyblion mwy abl yn dechrau ffurfio'u cwestiynau eu hunain i'w gofyn i rai eraill. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon aml y tu allan i wersi Cymraeg dynodedig.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus a balch am eu hysgol, a dywedant eu bod yn teimlo'n saff, yn ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod ble i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon, ac mae llawer yn siarad yn aeddfed am y cyfleoedd ar gyfer rhannu unrhyw bryderon ym mlwch pryderon y dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrtais a pharchus at ei gilydd, ac at staff ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn dal drysau ar agor i ymwelwyr ac yn eu cyfarth yn gwrtais wrth gerdded o amgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cerdded o amgylch yr ysgol mewn modd tawel a threfnus, ac yn siarad yn hyderus ag oedolion mewn ystod o sefydliadau. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac ar yr iard chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac yn mynd i'r afael yn dda â'u tasgau. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac yn canolbwyntio'n dda, am gyfnodau hir yn aml. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn trafod gwaith presennol a gwaith blaenorol gyda brwdfrydedd. Maent yn mwynhau'r testunau a astudir ganddynt, ac yn gyffredinol maent yn barod i weithio'n galed ac i lwyddo. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn cofio'n dda beth oedd angen iddynt ei gynnwys mewn llyfryn gwybodaeth am y gofod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn datblygu hyder a gwydnwch wrth wynebu heriau newydd a newid, er enghraifft pan fyddant yn cwblhau ymchwiliad am faint o

ynni gwres a gynhyrchir gan gyfuniad o diwbiau profi wedi'u llenwi. Mae lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth addas o ba mor dda y maent yn cyflawni, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau. Maent yn gwrando'n astud ar farnau rhai eraill ac yn delio'n dda â barnau sy'n wahanol i'w barnau eu hunain, er enghraifft pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn trafod effaith bwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain, ond cyfyngedig iawn yw medrau dysgu annibynnol y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn dibynnu gormod ar oedolion i'w cyfarwyddo yn eu dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod i ysgwyddo cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae gwaith y cyfeillion iard chwarae yn dechrau cyfrannu'n llwyddiannus at y safonau ymddygiad da ar iard yr ysgol yn ystod amser egwyl a chinio. Fodd bynnag, mewnbwn cyfyngedig a wneir gan y grwpiau disgyblion, fel y cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r Criw Cymraeg, ar sut i sicrhau newid neu wneud gwelliannau o amgylch yr ysgol.

Mae dealltwriaeth glir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i gadw'n iach drwy fwyta deiet cytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod fod ffrwythau a llysiau yn rhan hanfodol o ddeiet iach drwy siop ffrwythau ddyddiol y cyngor ysgol, a chlwb bwyta'n iach yr ysgol. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, er enghraifft y sesiynau dyddiol 'shake and wake' a drefnir gan y cenhadon chwaraeon, ac mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n weithgar mewn ystod o glybiau chwaraeon yn yr ysgol ac yn yr ardal leol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn deall pwysigrwydd mynychu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r ymateb i fentrau'r ysgol i wella presenoldeb yn anghyson. Er gwaethaf ymdrechion yr ysgol, mae presenoldeb disgyblion dros gyfnod wedi aros yn gyson islaw'r cyfartaledd, ac nid yw'n cymharu'n dda â phresenoldeb ysgolion tebyg eraill.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod bwrpasol o brofiadau dysgu ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'n adeiladu ar eu dysgu blaenorol ac yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol. At ei gilydd, ceir ehangder a chydbwysedd boddhaol yn y cwricwlwm. Mae cynlluniau tymor hir a thymor canolig yn rhoi trosolwg priodol o'r cwricwlwm i athrawon o ran beth i'w gwmpasu gyda disgyblion bob tymor. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio ac yn cyflwyno dysgu'n llwyddiannus ym mhob pwnc yn eu dosbarthiadau unigol.

Yn dilyn arweiniad gan y pennaeth dros dro, mae athrawon wrthi'n gwneud newidiadau i'w cynlluniau cwricwlaidd. Mae hyn yn dechrau sicrhau bod yr ysgol yn ymateb yn gadarn i ofynion statudol ac yn dechrau meddwl am y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r ysgol yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu syniadau ar gyfer eu testunau. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda'r athro dosbarth, mae'r disgyblion yn cynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau 'pili pala' y cyfod sylfaen, a gweithgareddau amser 'chilli' cyfnod allweddol 2. Er enghraifft, mae Blwyddyn 6 wedi creu eu heira artiffisial eu hunain, gan gymharu dwy rysáit wahanol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol i ddisgyblion ysgrifennu mewn ystod o genres ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig wedi'u datblygu cystal. Ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn sicrhau'n gyson bod disgyblion yn adeiladu'n systematig ar eu medrau mewn ystod ddigon eang o gyd-destunau ar lefel her briodol, yn enwedig mewn rhifedd a TGCh.

Nid yw'r ysgol wedi sefydlu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn ddigon cyson eto. Mae athrawon yn rhoi profiadau priodol i ddisgyblion mewn tasgau ffocws mewn ychydig o ystafelloedd dosbarth lle ceir ardaloedd chwarae rôl pwrpasol. Mae'r gweithgareddau hyn yn ysgogi medrau llefaredd disgyblion yn briodol, er enghraifft, pan fydd disgyblion yn ymgymryd â rôl gofodwr yn yr orsaf ofod. Ar draws y cyfnod sylfaen, fodd bynnag, mae oedolion yn arwain y rhan fwyaf o weithgareddau yn ormodol, ac nid yw staff bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud defnydd da o'r mannau awyr agored neu'n ymgysylltu digon yn eu dysgu eu hunain.

Mae gan lawer o athrawon wybodaeth gadarn am y pynciau y maent yn eu haddysgu, ac maent yn gweithio'n effeithiol gyda chynorthwywyr dosbarth. Yn gyffredinol, mae perthynas weithio effeithiol â disgyblion gan lawer o staff ar draws yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau pwrpasol o ymddygiad disgyblion ym mhob dosbarth. O ganlyniad, mae eu hystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau dysgu tawel a pharchus. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae cyflwyniadau athrawon yn ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion yn effeithiol, ac maent yn darparu tasgau ysgogol sy'n bodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn rhannu cyfarwyddiadau clir ac yn holi disgyblion yn bwrpasol er mwyn datblygu'u dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio'r holl ddisgyblion digon, yn enwedig y rhai mwy abl, i gyflawni hyd orau eu gallu. Yn gyffredinol, nid yw eu disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel. Mewn gormod o achosion, mae athrawon yn defnyddio taflenni gwaith yn fynych ac mae hyn yn cyfyngu gormod ar ddatblygiad annibyniaeth a chreadigrwydd disgyblion.

Mae athrawon yn creu meini prawf llwyddo perthnasol er mwyn gwerthuso pa mor dda y mae disgyblion wedi llwyddo i wneud cynnydd yn ystod gwersi. Maent yn rhoi adborth llafar buddiol i ddisgyblion ar eu hymdrechion mewn gwersi. Ceir gweithdrefnau addas i ddisgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau defnyddio asesiadau'n briodol y mae athrawon i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Drwy ymweliadau â mannau fel Amgueddfa Abergwili a Chastell y Strade, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth a dathliad disgyblion o hanes a diwylliant Cymru trwy destunau â chyd-destun Cymreig. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn dda, ond nid yw athrawon bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau Cymraeg yn annibynnol y tu allan i wersi Cymraeg. Yn ddiweddar iawn, mae'r Criw Cymraeg wedi dechrau ymateb yn gadarnhaol i'r Siarter Iaith Gymraeg.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar a gofalgar lle mae'r staff yn trin disgyblion yn gyfartal a theg. Mae oedolion yn darparu cymorth emosiynol a chymdeithasol buddiol i ddisgyblion. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn darparu ymyrraeth fuddiol i lawer o ddisgyblion sy'n eu helpu i wella'u medrau

cymdeithasol. Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi mabwysiadu system i annog ymddygiad da ac i sicrhau bod ystafelloedd dosbarth yn fannau trefnus. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion wedi gwella'n gyffredinol yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol. Ceir cysylltiadau gwerthfawr gyda gwasanaethau arbenigol, er enghraifft i ddarparu cymorth buddiol i oedolion sy'n gweithio gyda disgyblion ag anghenion meddygol neu sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol dynodedig yn wan. Ceir diffyg cysondeb yn y system ac nid yw staff yn sicr ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod disgyblion. Mae'r cynlluniau addysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwahaniaethu'n fawr rhwng y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2. Yn aml, mae'r targedau ar gyfer y disgyblion hyn yn afrealistig ac nid ydynt yn ddigon mesuradwy i sicrhau cynnydd da yn gyson. Mae athrawon wedi dechrau adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd gyda disgyblion a'u rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau bob amser yn arwain at dargedau newydd addas sy'n adeiladu ar y cynnydd y mae disgyblion eisoes wedi'i wneud.

Gwneir defnydd anghyson o system olrhain electronig yr ysgol gan staff. Mae asesiadau athrawon anghywir mewn ychydig o ddosbarthiadau yn effeithio ar ddibynadwyedd y wybodaeth yn y system. Nid yw'r athrawon bob amser yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar y medrau y mae disgyblion wedi'u meistroli ac yn eu defnyddio'n annibynnol. Mae arweinwyr yn dadansoddi'r data, ond nid ydynt yn rhannu'r dadansoddiad yn briodol gyda staff. Mae hyn yn cyfyngu ar allu staff i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o syrthio'n ôl yn eu gwaith. Nid yw'r rheolaeth o'r system yn ddigon cyson na mireiniedig i arweinwyr nodi pa mor dda y mae grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn gwneud dros gyfnod neu i werthuso pan fydd eu cynnydd yn cyflymu neu'n arafu.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o sut i fyw'n iach drwy ystod o weithgareddau addas yn yr ystafell ddosbarth a chlybiau ar ôl ysgol. Mae ymweliadau gan chwaraewyr o dîm rygbi rhanbarthol ac ymweliadau â chae rygbi lleol yn hyrwyddo pwysigrwydd ffitrwydd corfforol yn dda ymhlith disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu dealltwriaeth foesol, ysbrydol a chymdeithasol disgyblion drwy ei chwricwlwm addysg grefyddol a'i rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae staff yn integreiddio gwerthoedd yr ysgol a gyflwynwyd yn ddiweddar i weithred addoli cyfunol dyddiol yr ysgol yn effeithiol. Mae'r datganiadau cadarnhaol newydd a arddangosir o amgylch yr ysgol wedi gwella ymdeimlad disgyblion o hunanwerth a datblygu mwy o oddefgarwch yn eu plith. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu empathi a chymwynasgarwch, er enghraifft trwy ddisgyblion yn cyfrannu at hamperi cynhaeaf ar gyfer y banc bwyd lleol. Mae gweithgareddau eraill, er enghraifft codi arian at elusennau lleol a chenedlaethol, yn rhoi ymdeimlad o falchder a chyflawniad i ddisgyblion, ac yn datblygu'u dealltwriaeth o anghenion eu cymuned leol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion yn y byd ehangach a'u rolau fel dinasyddion byd-eang.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn gwybod pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a bod yn brydlon. Ychydig o effaith y mae hyn wedi'i chael, fodd

bynnag, ar wella cyfraddau presenoldeb yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf o gymharu â chyfraddau mewn ysgolion tebyg.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Yn yr ychydig wythnosau ers iddo gyrraedd, mae'r pennaeth dros dro, sy'n cynorthwyo'r ysgol dros dro o ysgol arall yn yr awdurdod lleol, wedi gweithio'n galed i ddarparu arweinyddiaeth glir ac agos-atoch i'r ysgol. Ers iddo ddechrau, mae'r ysgol wedi dechrau ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau adolygiad yr awdurdod lleol, ac mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cynnar iawn o ran gwella ychydig o agweddau ar y ddarpariaeth. Er enghraifft, mae cydweithio o fewn yr ysgol wedi arwain at ddealltwriaeth ysgol gyfan o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol i waith yr ysgol ar hyn o bryd. Nid ydynt wedi datblygu gweledigaeth gydlynus ar gyfer yr ysgol, ac o ganlyniad, mae'r staff wedi tueddu gweithredu'n rhy unigol o fewn eu dosbarthiadau neu gyfnodau eu hunain, ac nid ydynt wedi datblygu digon o gyfrifoldeb cyfunol, ysgol gyfan ar gyfer cyflwyno addysg o ansawdd uchel i'r holl ddisgyblion. Nid yw uwch arweinwyr wedi datblygu systemau i alluogi'r ysgol i redeg yn hwylus o ddydd i ddydd neu dros gyfnod. Dim ond digonol yw gormod o agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol, ac ar hyn o bryd, nid yw'n bodloni anghenion disgyblion gystal ag y gallai. Er enghraifft, nid oes gan uwch arweinwyr drosolwg strategol a gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm sy'n datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus ac yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr.

Mae cyfathrebu rhwng uwch arweinwyr a'r staff eraill yn wan yn gyffredinol. Mae hyn wedi cyfyngu ar ba mor dda y mae staff yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau dynodedig a'u rôl o ran helpu cyflawni blaenoriaethau strategol yr ysgol. Hefyd, mae wedi rhwystro'u gallu i weithio gyda'i gilydd yn gydlynus fel tîm. Mae'r pennaeth dros dro wedi sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau gan yr holl staff erbyn hyn, ac mae wedi dechrau tynnu'r staff at ei gilydd fel tîm. Mewn cyfnod byr, mae hefyd wedi sicrhau bod yr amgylchedd ysgol yn lle mwy diogel i'r holl staff a disgyblion.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwerthuso'i pherfformiad ei hun yn gyfyngedig. Hyd yn ddiweddar iawn, mae'r broses wedi defnyddio ystod dystiolaeth rhy gul ac nid yw wedi cynnwys staff, llywodraethwyr, rhieni na disgyblion yn ddigonol. O ganlyniad, nid yw cynlluniau gwella'r ysgol wedi mynd i'r afael yn effeithiol â diffygion ac nid yw grwpiau allweddol wedi'u cynnwys yn ddigonol ym mhroses gwella'r ysgol. Erbyn hyn, mae'r ysgol wedi elwa ar gynllun gweithredu a ddarparwyd gan y pennaeth dros dro. Mae hwn yn rhoi adlewyrchiad gwell o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu na chynlluniau blaenorol, ac mae'n canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur effaith y cynllun ar wella deilliannau disgyblion ac ansawdd darpariaeth yr ysgol.

Mae disgwyliadau uchel o'r holl aelodau staff gan y pennaeth dros dro. Mae wedi nodi diffygion yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei ymyriadau wedi cael digon o amser eto i fod yn gwbl effeithiol. Er enghraifft, nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon cadarn na systematig eto i ysgogi gwelliant

neu i fodloni gofynion statudol.  Mae dysgu proffesiynol y staff wedi bod yn gyfyngedig dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r pennaeth dros dro a'i effaith ar fywyd a gwaith yr ysgol.  Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw'r corff llywodraethol wedi craffu ar a herio arweinyddiaeth yr ysgol yn briodol.  Mae problemau staffio blaenorol wedi cyfrannu at yr ysgol yn cronni diffyg mawr yn ei chyllideb, ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar y strwythur staffio, adnoddau a chyflawniad disgyblion.  Cyfraniad cyfyngedig y mae'r corff llywodraethol wedi'i wneud at brosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol, ac nid yw wedi cyflawni ei holl rwymedigaethau statudol.

Mae'r ysgol yn dechrau ymateb i ychydig iawn o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft y fframwaith llythrennedd a'r siarter iaith Gymraeg.  Fodd bynnag, ychydig o gynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â materion presenoldeb, sefydlu egwyddorion y cyfnod sylfaen a bodloni gofynion llawn y fframwaith rhifedd.

Ceir digon o lyfrau, cyfrifiaduron ac offer eraill yr ysgol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion.  Mae arweinwyr yn dyrannu'r mwyafrif o grant datblygu disgyblion yr ysgol yn briodol i ddarparu cymorth ac ymyrraeth ar gyfer disgyblion targedig.  Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r grant cyfan at y dibenion a fwriadwyd.  Nid yw'r ysgol wedi defnyddio ei hadnoddau'n effeithlon dros y blynyddoedd diwethaf.  Adeg cynnal yr adolygiad, nid yw'r ysgol wedi cytuno'r cynllun diweddaraf ar gyfer lleihau'r diffyg mawr yn ei chyllideb gyda'r awdurdod lleol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019